

Pub is the Hub Case Study

RAVEN INN COMMUNITY RUN PUB, LLANARMON YN LAL, DENBIGHSHIRE



Tafarn draddodiadol, gymunedol yw Tafarn y Raven sy'n gwerthu bwydydd lleol a chwrw go iawn o ogledd Cymru. Saif y dafarn yng nghanol pentref prydferth Llanarmon-yn-iâl sy'n swatio yng nghysgod Bryniau Clwyd mewn ardal wedi ei dynodi'n 'Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.' Nid nepell o'r pentref mae Clawdd Offa. Rhyw 800 o bobl sy'n byw yn Llanarmon, a rhwng y pentref hwn a'r pentrefi cyfagos gall y dafarn fanteisio ar gwsmeriaeth rhwng 1200 a 1600 o bobl. Hwn yw'r un o'r ychydig bentrefi sy'n dal i gynnwys siop, swyddfa bost, ysgol a thafarn. Wedi i Dafarn y Raven fod ynghau am dri mis bu i'r gymuned benderfynu ei phrynu a'i rhedeg fel menter gydweithredol wirfoddol.

Bu Tafarn y Raven yn un o gonglfeini bywyd cymunedol Llanarmon-yn-iâl ers y'i codwyd hi ym 1772. Wedi iddi gau fe'i rhoddwyd ar ocsiwn fel tafarn ryddfrait ond ni lwyddwyd i gyrraedd y pris cadw. Bu i'r gymuned geisio ei phrynu ond doedd hyn ddim yn bosib. Bu i'r dafarn gau am dri mis. Yn wyneb y posibilrwydd o golli'r dafarn, penderfynodd y pentref ei rhedeg yn wirfoddol fel menter gymdeithasol ac fe ffurfiwyd pwyllgor i'w perwyl hwn.

Sefydlwyd Raven Mad Ltd, cwmni 'cyfyngedig drwy warant' i redeg y dafarn. Mae'r cwmni wedi llwyddo i sicrhau prydles chwe blynedd ac maen nhw'n rhedeg y dafarn gyda chefnogaeth y gymuned. Bu hyn yn ymdrech gymunedol fawr gyda mintai fechan o wirfoddolwyr yn glanhau ac ailaddurno'r adeilad, y tu mewn a'r tu allan. Cafodd blodau eu plannu, waliau a drysau eu peintio a chadeiriau eu hail-glustogi. Bu gwirfoddolwyr yn rhedeg y dafarn ers mis Awst 2009 gydag unrhyw elw'n ariannu prosiectau cymunedol yn y pentref.

Ail-agorwyd y dafarn ar y 29ain o Awst a bu'r busnes yn llwyddiannus. Cafodd pwyllgor ei drefnu i oruchwylio a chydlynu'r gwaith. Mae'r pwyslais ar y gymuned gyfan yn cydweithio i greu tafarn sydd unwaith eto yn galon y gymuned. Erbyn hyn y dafarn yw canolbwynt y pentref – mae hi'n cynnal digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd ac yn hyrwyddo cynnyrch lleol. Mae'r dafarn ar agor chwe diwrnod yr wythnos ac fe gaiff ei rhedeg a'i chynnal gan wirfoddolwyr o blith aelodau'r pwyllgor a thrigolion y pentref. Ers ail agor, bu'r dafarn yn ceisio cynnig gwasanaethau ychwanegol.

Ar hyn o bryd, mae'r dafarn yn cynnig man i'r clwb ieuencid lleol gwrdd bob pythefnos fel ffordd o ategu gwasanaeth y bws ieuencid. Golyga hyn fod yna glwb ieuencid wythnosol yn y pentref. Maen nhw hefyd yn trefnu cinio a digwyddiad cymdeithasol rheolaidd i bobl oedrannus sy'n byw ar eu pen eu hun.

Mae Raven Mad Ltd bellach yn dal y dafarn ar brydles o ugain mlynedd ac maen nhw hefyd wedi defnyddio'u harbenigedd i helpu'r gymuned gymryd awenau siop y llan. Maen nhw wedi agor bragdy bychan ac yn gwerthu'r cynnyrch yn The Raven ac wedi agor tair ystafell ar gyfer gwsteion uwchlaw'r dafarn.

I wybod mwy, cysylltwch â ni ar 01423 546165 neu anfonwch e-bost at enquiries@pubisthehub.org.uk